*This document is available in English* **Rhif ar yr agenda 14**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub** |
| Dyddiad | **19/03/18** |
| Swyddog Arweiniol | **Colin Everett, Clerc yr Awdurdod** |
| Swyddog Cyswllt | **Alwen Davies, Swyddog Cyswllt Aelodau** |
| Pwnc | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Gofynnir i Aelodau gymeradwyo'r adroddiad sydd ynghlwm.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Fel mater o lywodraeth gorfforaethol dda mae'r Pwyllgor yn darparu'r Awdurdod Tân ac Achub gydag adroddiad blynyddol o'i weithgarwch yn ystod pob blwyddyn ariannol.

3 Mae adroddiad blynyddol y Pwyllgor ynghlwm er ystyriaeth yr Aelodau.

**ARGYMHELLIAD**

4 Argymhellir fod aelodau'n nodi'r adroddiad blynyddol.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Dim goblygiadau penodol |
| Cyllideb | Dim goblygiadau penodol |
| Cyfreithiol | Dim goblygiadau penodol |
| Staffio | Dim goblygiadau penodol |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim goblygiadau penodol |
| Risgiau | Dim goblygiadau penodol |

**ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR SAFONAU AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

## Cefndir

Dyma'r trydydd adroddiad ar ddeg gan y Pwyllgor Safonau i'r Awdurdod Tân ac Achub ac mae'n cynnwys y cyfnod o fis Ebrill 2017 hyd fis Mawrth 2018. Mae deddfwriaethau'n gofyn i'r Pwyllgor Safonau gwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn.

Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Safonau yn darparu cylch gwaith i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau'r Awdurdod a goruchwylio polisi chwythu'r chwiban ar gyfer cwynion yn erbyn yr Awdurdod. Hefyd, pan fo deddf yn caniatáu, i dderbyn adroddiadau a chwynion am aelodau, gwneud neu oruchwylio archwiliadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod.

## Aelodaeth

Daeth cyfnodau swydd dwy aelod annibynnol, Celia Blomeley a Jane Eyton-Jones, i ben ar 31 Rhagfyr 2017. Gan mai hwn oedd eu hail gyfnod nid oeddynt yn gymwys i'w hail-benodi.

Eleni, cafodd yr ymgyrch recriwtio ei chynnal ar y cyd â Chyngor Sir y Fflint. Er bod yr Awdurdod Tân ac Achub a'r Cyngor Sir yn gweithredu mewn ffyrdd gwahanol, penderfynwyd cymryd y cam anarferol o recriwtio ar y cyd. Gwnaethpwyd hyn i rannu'r gost, ac yn bwysicach, oherwydd ein bod yn cydnabod y gallai fanteision ddod drwy rannu dealltwriaeth rhwng y ddau gorff.

Cafodd y swyddi eu hysbysebu yn y Daily Post, Flintshire Leader, ac ar wefannau ATAGC a Chyngor Sir y Fflint a'r gwefannau cyfryngau cymdeithasol yn ystod mis Hydref a dechrau mis Tachwedd 2017. Daeth wyth cais i law i ymateb i'r hysbyseb, a rhoddwyd pum ohonynt ar y rhestr fer. Ar 29 Tachwedd, cyfarfu'r Panel i gyfweld yr ymgeiswyr a oedd ar y rhestr fer. Ar ddiwedd y broses gyfweld, bu'r Panel yn trafod am gryn amser nodweddion a chryfderau'r pum ymgeisydd, gan ddod i'r casgliad fod pob un o'r ymgeiswyr yn addas i'w penodi.

Yng nghyfarfod Awdurdod Tân a Achub Gogledd Cymru ar 18 Rhagfyr 2017, derbyniodd yr aelodau argymhellion y Panel, sef penodi Sally Ellis a Julia Hughes gan ddod i rym ar 1 Ionawr 2018, a hynny am gyfnod o bedair blynedd.

Mae dau gynrychiolydd newydd o ATAGC hefyd, yn dilyn etholiadau'r cynghorau yn 2017. Felly, dyma'r aelodaeth newydd:

Aelodau Annibynnol
David Morris 01/09/14 - 31/08/18
Antony P Young 01/04/16 - 31/03/20
Sally Ellis 01/01/18 – 31/12/2021
Julia Hughes 01/01/18 – 31/12/2021

Aelodau Awdurdod Tân ac Achub
Y Cynghorydd Dylan Rees (19/06/18 ymlaen)
Y Cynghorydd Owen Thomas (19/06/18 ymlaen)

**Presenoldeb a Materion**

Cyfarfu'r Pwyllgor Safonau ar 27 Chwefror 2018 ac roedd yr aelodau canlynol yn bresennol:

Antony P Young
Sally Ellis
Julia Hughes
Y Cynghorydd Owen Thomas

Yn y cyfarfod hwnnw, cafwyd cyflwyniad ar waith yr Awdurdod, cyflwyniad ar lefelau presenoldeb a gosodwyd rhaglen waith y pwyllgor.

**Cwynion yn erbyn aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub**

Ni fu cwyn ynglŷn ag aelod o'r ATA yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, mynegwyd pryder am bresenoldeb aelodau ATA mewn cyfarfodydd a caiff y mater hwn ei adolygu yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau ym Medi 2018

**Goblygiadau Ariannol**

Mae'r gyllideb ar gyfer y Pwyllgor Safonau yn dod o dan bennawd gwasanaethau pwyllgorau sydd ar gyfer holl gostau'r Awdurdod. Yn dilyn cymeradwyo cynllun cydnabyddiaeth ariannol yr aelodau ar 18 Mehefin 2012, gall yr aelodau annibynnol erbyn hyn hawlio cydnabyddiaeth ariannol yn seiliedig ar gyfarfodydd a digwyddiadau a fynychir. Hyd yn hyn, ni wnaed unrhyw hawliau.

**Casgliad**

Mae'r Pwyllgor Safonau'n argymell fod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn nodi ei adroddiad.